# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5, Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mercher, 29 Tachwedd 2023

Amser: 09:00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCCGG@senedd.cymru

**Bydd y cyfarfod yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.TV**

## (Rhag-gyfarfod preifat)

(09:00 - 09:15)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

(09:15)

## 2 Papurau i'w nodi

(09:15 - 09:30)

**2.1 Llythyr gan Brif Weithredwr Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a Phennaeth Is-adran Taliadau Gwledig Llywodraeth Cymru ynghylch gwneud y mwyaf o arian yr UE**

(Tudalennau 1 - 5)

**2.2 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

(Tudalennau 6 - 15)

**2.3 Llythyr gan Gyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ynghylch Maes Awyr Caerdydd**

(Tudalennau 16 - 21)

## 3 Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru: Amgueddfa Cymru

(09:30 - 11:00) (Tudalennau 22 - 51)

Swyddogion Llywodraeth Cymru

Senedd Cymru
Welsh Parliament

- Andrew Slade: Cyfarwyddwr Cyffredinol - yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad
- Jason Thomas: Cyfarwyddwr - Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

Dogfennau atodol:

- Trefniadau llywodraethu mewn perthynas ag anghydfod cyflogaeth yn Amgueddfa Cymru

- Adroddiad Terfynol Panel yr Adolygiad Teilwredig

- Llythyr gan Cyfarwyddwr Cyffredinol, Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad Llwyodraeth Cymru

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(11:00)

## Egwyl

(11:00 – 11:10)

## 5 Trafod y dystiolaeth a gafwyd gan Lywodraeth Cymru: Amgueddfa Cymru

(11:10 – 11:40)

## 6 Trafod adroddiad drafft y Pwyllgor: Adfywio Canol Trefi

(11:40 – 12:00) (Tudalennau 52 – 110)

## 7 Blaenraglen waith: Gwanwyn 2024

(12:00 – 12:30) (Tudalennau 111 – 125)

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd,
Caerdydd
CF99 1SN

15 Tachwedd 2023

Annwyl Cadeirydd,

**Gwneud y Mwyaf o Arian yr UE**

Ysgrifennaf yn dilyn eich llythyr dyddiedig 24 Hydref 2023, pan y gofynnoch am ragor o wybodaeth i gynorthwyo ag ystyriaeth y Pwyllgorau o adroddiad Archwilio Cymru, Gwneud y Mwyaf o Arian yr UE (Mehefin 2023).

Gweler isod yr wybodaeth y gofynnoch amdani.

**Cyllid amgen**

*Rhaglen Cronfeydd Strwythurol yr UE:*

- Gyda'r cyllid Ffyniant a Rennir yn mynd yn uniongyrchol i lywodraeth leol, beth mae Llywodraeth Cymru yn ei gynllunio ar gyfer rhaglenni cenedlaethol fel dysgu yn y gwaith, prentisiaethau a gwasanaethau cymorth cyflogaeth sydd wedi denu llawer o Gronfeydd Strwythurol yr UE o'r blaen.

  Mae peidio cynnwys Llywodraeth Cymru wrth ddylunio a rheoli'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) wedi creu llu o broblemau i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a phartneriaid cyflawni eraill eu rheoli.

  Mae peidio â disodli lefel ariannu Cymru o'r UE yn llwyr yn golygu bod Cymru wedi colli allan o £1.1 biliwn o gyllid o'i gymharu â lefelau ariannu'r UE, tra bod oedi, dyluniad a ffocws tymor byr Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU hefyd wedi rhoi Llywodraeth Cymru, addysg uwch ac addysg bellach, busnesau a'r trydydd sector, a gefnogwyd yn flaenorol gan gyllid yr UE, dan anfantais rhag cael mynediad at gannoedd o filiynau o bunnoedd i gefnogi ein blaenoriaethau ar gyfer twf a swyddi.

*Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.*

*We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.*

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays / Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

@llyw.cymru
Gwefan • website:
www.llyw.cymru
www.gov.wales

Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth i raglenni cenedlaethol, Cymru gyfan fel Busnes Cymru, Prentisiaethau ac Arloesi a elwodd o gyllid yr UE. Er enghraifft, mae diffyg mynediad Llywodraeth Cymru i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin wedi creu bwlch ariannu sylweddol i tua 5,300 o brentisiaethau y flwyddyn. Er mwyn goresgyn y bwlch hwn, defnyddiodd Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol o gyllideb Cymru i gynnal darpariaeth rhaglenni prentisiaeth i lefelau ariannu'r UE hyd at 2023/24. Hefyd, bu'n rhaid i'n partner cyflawni, Gyrfa Cymru, atal eu "Rhaglen Cymorth Actifadu" a ariannwyd gan yr UE, a oedd yn cefnogi dros 8,500 o bobl ifanc ledled Cymru yr ystyriwyd eu bod yn y perygl mwyaf o beidio â mynd i mewn i Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant (NEET).

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi gorfod cau rhaglenni a ariennir gan yr UE fel Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE). Helpodd PaCE rieni/gwarcheidwaid a oedd yn economaidd anweithgar i baratoi ar gyfer cyfleoedd cyflogaeth a chael mynediad atynt a darparu gofal plant wedi'i ariannu. Cafodd rhieni gymorth unigol trwy Gynghorydd Cyflogaeth Rhieni yn gweithio yn y gymuned i helpu i wella sgiliau, mynd i'r afael â hunan-barch isel/hyder isel a symud rhieni/gwarcheidwaid yn agosach at gyflogaeth gynaliadwy. Eleni rydym yn disgwyl derbyn tua £30m o gyllid yr UE i gefnogi ein tair Rhaglen Cyflogadwyedd Genedlaethol. Nid yw'r arian hwn yn cael ei ddisodli. Felly, rydym eisoes wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd ar y gyllideb ac yn amlwg ni fyddwn yn gallu darparu gweithgareddau i'r un raddfa neu uchelgais ag yr oeddem wedi ei obeithio. Mae dyblygu gweithgarwch hefyd yn bryder, gyda dull Y Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU yn creu tirwedd ariannu tameidiog ac ystod ddryslyd a chymhleth o opsiynau i bobl a busnesau.

Er gwaethaf hyn, mae ein cynnig yn parhau'n gyson. P'un a yw pobl yn cychwyn ar eu taith gyflogaeth, yn chwilio am waith, mewn perygl o golli gwaith neu, yn y pen draw, wedi colli eu swyddi, mae gan Lywodraeth Cymru raglenni cymorth effeithiol ar waith i sicrhau nad oes neb yn cael ei adael ar ôl. Mae Cymunedau am Waith + (CFW+) yn parhau i fod yn ymyriad allweddol i fynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd a chefnogi'r rhai sydd fwyaf difreintiedig yn y farchnad lafur. Mae wedi'i integreiddio â gwasanaethau'r Ganolfan Byd Gwaith ac mae'n gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ledled Cymru i ddarparu cefnogaeth a hyfforddiant personol dwys. Mae ein rhaglen ReAct+ yn agwedd allweddol ar gefnogaeth i'r rhai sydd naill ai wedi'u heffeithio gan ddiswyddiad neu i'r rhai sy'n ddi-waith tymor byr ddychwelyd i'r gwaith yn gyflym. Mae ein rhaglenni ReAct+ a CFW+ yn parhau i fod yn flaenllaw yn y cynnig cydlynol o gymorth diswyddo gydag Adran Gwaith a Phensiynau'r DU, gan gefnogi gweithwyr sydd wedi'u dadleoli, yn fwyaf diweddar gan 2 Sisters, Tillery Valley Foods a UK Windows and Doors. Mae Twf Swyddi Cymru+ yn parhau i gefnogi pobl ifanc NEET ac yn darparu cymorth ychwanegol i fynd i'r afael â'r effaith o golli dysgu a phrofiad gwaith o ganlyniad i bandemig Covid.

Ein nod yw sicrhau bod ein rhaglenni cyflogadwyedd yn gallu gweithredu o dan yr amodau heriol hyn, yn parhau yn addas i'r diben, yn addas i'r dyfodol ac yn ddigon hyblyg i bontio fel y bydd yr economi a'r farchnad lafur ei angen. Ar y sail honno, ac yn unol â'n hymrwymiad yn y cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau, rydym wedi dechrau gweithio ar adolygiad sylfaenol o'n rhaglenni cyflogadwyedd allweddol - CFW +, Twf Swyddi Cymru+ a ReAct+.

*Rhaglen Datblygu Gwledig*

- O ystyried pwysau ehangach ar gyllideb Llywodraeth Cymru, beth yw'r rhagolygon y bydd y cyllid newydd yn cyfateb i'r lefelau a ddarparwyd gan y Rhaglen Datblygu Gwledig, gan gynnwys lefel y ddarpariaeth ar gyfer rhaglenni economaidd-gymdeithasol.

  O ystyried y pwysau ar gyllidebau Llywodraeth Cymru, mae'n annhebygol y bydd yr un lefel o gyllid ag a ddarparwyd yn flaenorol ar gael yn y dyfodol. Fodd bynnag, os yw Llywodraeth y DU yn sicrhau bod lefelau digonol o gyllid ar gael, yna bydd gan Weinidogion y cyfle i ystyried lle y dylid targedu cyllid.

  Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd cynlluniau economaidd-gymdeithasol. Fodd bynnag, o ystyried y cyfyngiadau a osodwyd ar gyllid gan Lywodraeth y DU, eu dull o ymdrin â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, a'r gyllideb gyfyngedig sydd ar gael i ni, rydym wedi blaenoriaethu ein hymrwymiadau craidd.

- A yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi lefel debyg o wybodaeth am wariant a pherfformiad ar y cynlluniau newydd fel o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig.

  Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi gwybodaeth yn unol â'r rhwymedigaethau adrodd a nodir yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.

- Sut mae cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhaglen Economaidd a Chynaliadwyedd Gwledig (ar draws 2022-23 i 2024-25) wedi'i ddyrannu a'i wario hyd yma, gan gynnwys a oedd y dyraniad ar gyfer 2022-23 wedi'i wario'n llawn.

  Does dim "Rhaglen Economaidd a Chynaliadwyedd Wledig". Dyma enw'r llinell gyllideb sy'n cefnogi cynlluniau sydd o fudd i'n pontio i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS), yn enwedig yr elfennau a fydd yn cyflawni Gweithredoedd Dewisol a Chydweithredol SFS. Cyfeirir at y llinell gyllideb hon hefyd weithiau fel "cynlluniau buddsoddi gwledig".

  Yn 2022/23 gwariwyd £6.88m drwy'r llinell gyllideb hon. Mae'r cyllid sydd ar gael drwy'r llinell gyllideb hon ar gyfer 2023/24 fel y'i cyhoeddwyd yng Nghyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru, llai o £10m o refeniw ac £20m o gyfalaf a gafodd ei ail-flaenoriaethu i feysydd eraill yn dilyn diweddariad y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar sefyllfa ariannol 2023/24. Bydd y gyllideb sydd ar gael yn 2024/25 yn amodol ar gytundeb y Cabinet, a fydd wedyn yn llywio'r gyllideb ddrafft a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr.

- Pryd fydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl agor ceisiadau ar gyfer y cynllun amaeth-amgylcheddol interim (yn lle Glastir) ac a fydd cyllid tebyg ar gael fel blynyddoedd blaenorol

  Agorodd y cyfnod ymgeisio ar gyfer Cynllun Cynefin Cymru ar 29 Medi a daeth i ben ar 10 Tachwedd 2023. Ni ellir cadarnhau y dyraniad cyllideb i'r cynllun hwn nes bydd ein hymarfer i edrych ar gyllidebau 2024/25 ar draws pob portffolio wedi dod i ben.

**Materion Eraill**

- Faint o brosiectau gweithredol sydd wedi pasio eu dyddiad dod i ben o fewn y rhaglen cronfeydd strwythurol?

  Dylai cyfanswm o 17 prosiect a gefnogir gan raglenni Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Chronfa Gymdeithasol Ewrop 2014-2020 gyflwyno eu hawliadau taliad terfynol i WEFO yn 2024, os cyflwynir yr holl geisiadau yn brydlon yn unol â chytundeb cyllido pob prosiect. (Sylwch, at y diben hwn, mae prosiectau wedi'u grwpio gyda'i gilydd lle maent yr un fath yn y bôn, ond yn dechnegol ar wahân oherwydd rhaniad Rhaglen Weithredol Dwyrain Cymru / Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.)

- Rydych wedi ymrwymo i ddarparu rhagor o fanylion am eich cynigion ar gyfer addasu'r Rhaglen Datblygu Gwledig (gweler paragraff 176 o'r trawsgrifiad).

  Roedd y chweched addasiad a'r olaf i'r Rhaglen Datblygu Gwledig yn canolbwyntio'n llwyr ar yr agweddau ariannol - nid yw'r gwelliant arfaethedig yn ceisio newid y targedau carreg filltir a osodwyd o fewn y Fframwaith Perfformiad. Bydd yn sicrhau'r defnydd gorau posibl o'r arian, a bod y cyllid hwnnw'n cyd-fynd â darpariaeth ar lawr gwlad ac yn cael ei ddyrannu i 'Fesur' cywir y Rhaglen.

- Rydych wedi cytuno i roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn ysgrifenedig am y gwariant gwledig domestig o £27.3 miliwn yn 2022-23 (gweler paragraff 149 o'r trawsgrifiad).

  Gwariwyd £6.88m drwy'r llinell gyllideb y cyfeiriwyd ati. Mae llawer o'r cynlluniau yn cael eu harwain gan alw. Os nad yw'r galw ar gael, bydd cyllid yn cael ei ailddyrannu i flaenoriaethau eraill.

- Roeddech hefyd yn cytuno y byddech yn cadarnhau cyfanswm gwerth cyllid y Cynllun Datblygu Gwledig a gafodd "ei roi i un ochr" gan Lywodraeth y DU, o ganlyniad i wariant araf (gweler paragraff 140 o'r trawsgrifiad).

  Methodd Llywodraeth y DU â darparu £243m o gyllid. Ni fyddai dim o'r cyllid hwn wedi ei golli pe byddem wedi aros yn yr UE.

  Nid yw eu methiant i ddarparu'r cyllid hwn oherwydd 'gwariant araf'. Gwnaethom benderfyniadau am ein proffil gwariant flynyddoedd lawer yn ôl a oedd yn addas i Gymru ac a oedd yn benderfyniadau ymwybodol. Er bod rhywfaint o oedi annisgwyl i rai prosiectau oherwydd effeithiau gadael yr UE, Covid a'r argyfwng costau byw, nid yw hyn yn golygu y dylai Llywodraeth y DU fod wedi cosbi cefn gwlad Cymru.

- A yw Llywodraeth Cymru wedi gweld unrhyw ostyngiad pellach yn nifer y camgymeriadau gweinyddol sy'n ymwneud â dehongli rheolau cynllun y Rhaglen Datblygu Gwledig ers i'r sefyllfa gael ei hadlewyrchu yng ngwaith archwilio Archwilio Cymru 2022. Mae hyn yn ymwneud â'r gwaith archwilio ariannol y cyfeirir ato ym mharagraff 38 o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol.

  Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod adroddiad Archwilio Cymru ar gyfer 2022 wedi dod i'r casgliad bod y gronfa yn gywir a'i bod wedi'i chlirio wedi hynny gan y Comisiwn Ewropeaidd. Mae Llywodraeth Cymru yn dysgu gwersi bob blwyddyn o ganfyddiadau archwilio ac yn gobeithio y bydd y gwallau gweinyddol yn lleihau yng nghyfrifon 2023, sydd i ddod i rym ym mis Chwefror 2024.

- Sut mae'r addasiad a ragwelir ar 30 Medi yn y Rhaglen Datblygu Gwledig yn datblygu, beth fydd yr addasiad yn ei olygu, a'r rhesymau drosto.

  Pwrpas yr addasiad oedd sicrhau bod arian yr UE mor uchel a phosibl.

  Yn dilyn ymgynghori â'r Pwyllgor Monitro Rhaglenni, cyflwynwyd yr addasiad i'r Comisiwn Ewropeaidd ar 29 Medi 2023. Mae'r Comisiwn bellach wedi lansio'r broses fabwysiadu ac rydym yn disgwyl mabwysiadu'r addasiad yn ffurfiol maes o law.

Hyderaf fod yr wybodaeth uchod yn ateb eich cwestiynau, ond os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â mi.

Yr eiddoch yn gywir,

Peter Ryland, Prif Weithredwr, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

Hugh Morgan, Pennaeth yr Is-adran Taliadau Gwledig, Llywodraeth Cymru

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
SeneddIechyd@senedd.cymru

Mark Isherwood AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
SeneddCCGG@senedd.cymru

20 Tachwedd 2023

Annwyl Russell a Mark,

Rwy'n ysgrifennu ymhellach at fy llythyr dyddiedig 10 Mai, lle rhoddais yr wybodaeth ddiweddaraf am nifer o ddarnau o waith a chytuno i roi diweddariad pellach y mis hwn.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Mae'r adroddiad amgaeedig yn atodiad 1 yn nodi'r gwaith a wnaed dros y 6 mis diwethaf. Byddwch hefyd yn ymwybodol fy mod yn darparu adroddiadau chwarterol ar y cynnydd y mae'r bwrdd iechyd yn ei wneud yn erbyn y fframwaith mesurau arbennig. Mae'r ddau adroddiad cyntaf yn nodi'r cynnydd a wnaed dros chwe mis cyntaf y trefniadau mesurau arbennig a bydd y trydydd adroddiad chwarterol sy'n nodi'r cynnydd a wnaed yn ystod y tri mis diwethaf yn cael ei gyhoeddi ar 13 Rhagfyr 2023.

Grŵp Cynghori Gweinidogol Gorchwyl a Gorffen ar Atebolrwydd

Ar 8 Tachwedd 2023, cyhoeddais Ddatganiad Ysgrifenedig a oedd yn nodi aelodaeth y Grŵp Cynghori Gweinidogol Gorchwyl a Gorffen yr wyf wedi'i sefydlu i ystyried y strwythurau llywodraethiant presennol o fewn GIG Cymru, rhoi barn ynghylch a yw atebolrwydd yn glir ac yn briodol, a chynghori ar unrhyw argymhellion sydd eu hangen i'w cryfhau.

Yn benodol, rwyf wedi gofyn i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen roi gwybod imi beth yw ei argymhellion erbyn 31 Mawrth 2024 ac wrth wneud hynny:

- Ystyried y strwythurau llywodraethiant presennol o fewn system GIG Cymru a rhoi sylwadau ar unrhyw gryfderau neu wendidau.
- Mynegi barn ynghylch a yw'r atebolrwydd yn glir ac yn briodol.
- Darparu unrhyw argymhellion i gryfhau'r system.
- Cadw mewn cof fod gweinidogion iechyd yng Nghymru yn agosach at system y GIG nag mewn mannau eraill a bod angen i'r mecanweithiau atebolrwydd ystyried hyn.

Y Fframwaith Ymyrryd ac Uwchgyfeirio

Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud ar y Fframwaith hwn ac mae ymgynghoriad wedi'i gynnal gyda'r GIG. Rwy’n bwriadu rhannu rhagor o wybodaeth â’r pwyllgor maes o law ynglŷn â’r trefniadau cyhoeddi.

Rwy'n gobeithio bod y diweddariad hwn yn ddefnyddiol a rhowch wybod i mi os oes angen unrhyw wybodaeth neu friff pellach arnoch ar y materion hyn.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Mesurau Arbennig: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Diweddariad ar gyfer y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Gan: Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Tachwedd 2023

## 1. Y cefndir

Mae'r Fframwaith Mesurau Arbennig yn nodi'r rhesymau pam y cafodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ei roi mewn mesurau arbennig ar 27 Chwefror 2023. Maent yn ymwneud â phryderon difrifol ynghylch effeithiolrwydd y bwrdd, diwylliant sefydliadol, ansawdd gwasanaethau ac ad-drefnu gwasanaethau, llywodraethiant, diogelwch cleifion, cyflawni gweithredol, arweinyddiaeth a rheolaeth ariannol.

Mae'r fframwaith yn nodi'n eithaf manwl y gwelliannau a ddisgwylir rhwng mis Mawrth a mis Rhagfyr 2023 o dan yr wyth maes pryder a ganlyn, sef:

- Llywodraethiant, effeithiolrwydd y bwrdd ac archwilio
- Y Gweithlu a datblygu sefydliadol
- Llywodraethiant a rheoli ariannol
- Arweinyddiaeth a diwylliant tosturiol
- Llywodraethiant clinigol, profiad cleifion a diogelwch
- Cyflawni gweithredol
- Cynllunio a thrawsnewid gwasanaethau
- Gwasanaethau clinigol sy'n agored i niwed

Mae hefyd yn nodi pum canlyniad clir ar gyfer y cyfnod sefydlogi o'r mesurau arbennig:

- Bwrdd sy'n gweithredu'n dda
- Cynllun clir, cyflawnadwy ar gyfer 2024/25
- Arweinyddiaeth ac ymgysylltu cryfach
- Gwella mynediad, canlyniadau a phrofiadau i ddinasyddion
- Sefydliad sy'n dysgu ac sy'n gwella ei hun

Am fod y gwaith yn y meysydd a nodir uchod mor gymhleth a mawr ei gwmpas, bydd pedair lefel i'r ymyrraeth mesurau arbennig er mwyn cefnogi'r broses isgyfeirio.

- Darganfod
- Sefydlogi
- Safoni
- Cynaliadwyedd

Cynhaliwyd y cyfnod darganfod yn ystod y cyfnod rhwng mis Mawrth a mis Mai ac mae'r adroddiad chwarterol cyntaf yn nodi'r cynnydd a wnaed yn ystod y cyfnod cychwynnol hwnnw. Mae'r bwrdd iechyd bellach yn y cyfnod sefydlogi o'r mesurau arbennig, a fydd yn para tua 9 mis. Bydd y cyfnod hwn yn cynnwys tri chylch.

Dechreuodd y cylch cyntaf ar 1 Mehefin 2023 a daeth i ben ar 31 Awst 2023. Bydd yr ail gylch yn rhedeg o 1 Medi 2023 hyd at 30 Tachwedd 2023.

Cynhaliwyd adolygiad o gylch 1, a oedd yn cynnwys aelodau'r bwrdd, cynghorwyr annibynnol a swyddogion Llywodraeth Cymru, ar 9 Awst. Mae rhywfaint o gynnydd da wedi cael ei wneud ar gamau galluogi yn ystod y cylch 90 diwrnod cyntaf hwn. Mae'n rhy gynnar eto i ystyried pa mor effeithiol y maent wedi bod nac eu heffaith. Mae'r bwrdd iechyd yn canolbwyntio ar ddatblygu'r camau hyn er mwyn sicrhau eu bod wedi'u gwreiddio, gan arwain at welliannau cynaliadwy.

Mae'r adolygiadau allanol canlynol wedi dod i ben, ac mae adroddiadau wrthi'n cael eu cwblhau neu maent wedi cael eu rhannu â'r bwrdd iechyd i gael eu hystyried gan y Bwrdd drwy ei strwythurau llywodraethu priodol:

- Adolygiad o'r pryderon a fynegwyd ynghylch Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mewn perthynas â diogelwch cleifion.
- Adolygiad diogelwch o unedau cleifion mewnol iechyd meddwl ac anableddau dysgu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.
- Adolygiad cyflym o benodiadau dros dro i swyddi gweithredol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.
- Adolygiad cyflym o swyddfa ysgrifennydd y bwrdd.
- Asesiad o sicrwydd y gwasanaeth fasgwlaidd.
- Adolygiad portffolio y tîm gweithredol.
- Asesiad annibynnol o ddulliau a phrosesau cynllunio integredig.
- Rheoli contractau a chaffael (o dan arweiniad y bwrdd iechyd).
- Gwrando ar ddinasyddion, cleifion, staff a phartneriaid.

At hynny, cwblhawyd asesiad o feysydd allweddol o bortffolio'r gweithlu ('adolygiad arbenigwyr adnoddau dynol').

Mae'r adolygiadau canlynol ar y gweill a byddant yn llywio blaenoriaethau a chamau gweithredu ar gyfer cylchoedd yn y dyfodol ar ôl iddynt gael eu cwblhau a'u hystyried gan y Bwrdd drwy ei strwythurau llywodraethu priodol:

- Adolygiad o lwybrau fasgwlaidd rhwng Awst 2022 ac Awst 2023.
- Asesiad dilynol o sicrwydd o'r unedau cleifion mewnol iechyd meddwl.
- Adolygiad dilynol o effeithiolrwydd y bwrdd a gynhelir gan Archwilio Cymru.

Cyhoeddwyd yr ail adroddiad chwarterol ar 19 Medi. Mae'r adroddiad yn nodi'r cynnydd a wnaed rhwng mis Mehefin a diwedd mis Awst. Mae'r blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod rhwng mis Medi a mis Tachwedd wedi eu cyhoeddi yma.

Mae'r adrannau canlynol yn tynnu sylw at y cynnydd a wnaed yn erbyn nifer o feysydd risg uchel:

<u>Gofyniad i sefydlogi'r Tîm Gweithredol</u>

- Ar 14 Tachwedd 2023, cadarnhawyd Carol Shillabeer yn Brif Weithredwr parhaol yn dilyn proses recriwtio agored.
- Mae Adele Gittoes wedi ei secondio o Weithrediaeth GIG Cymru fel Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau dros dro am gyfnod o 9 mis (tan fis Mawrth 2024).
- Mae Elin Gwynedd wedi ei secondio o Lywodraeth Cymru i fod yn Bennaeth Staff y Bwrdd Iechyd.
- Mae Russell Caldicott wedi'i benodi'n Gyfarwyddwr Cyllid dros dro.
- Phil Meakin yw'r Ysgrifennydd Bwrdd Dros Dro, yn dilyn ailstrwythuro mewnol
- Mae’r broses o recriwtio i swydd Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol (ac Ysgrifennydd y Bwrdd) ar y gweill.

Camau a gymerwyd i sefydlogi'r Bwrdd

Mae gwaith wedi parhau i fynd rhagddo er mwyn datblygu a chefnogi’r Bwrdd. Penodwyd Mike Parry yn Aelod Cyswllt newydd o'r Bwrdd, yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid ar gyfer BIPBC tan 30 Mehefin 2024. Mae Gareth Williams wedi'i benodi'n is-gadeirydd ac mae Urtha Felda a Dr Caroline Turner wedi'u penodi'n aelodau annibynnol. Gellir dod o hyd i fanylion yr aelodau annibynnol yn aelodau'r bwrdd iechyd. Bydd proses recriwtio arall ar gyfer y tri aelod annibynnol sy'n weddill yn dechrau ym mis Tachwedd.

Cynhelir cyfweliadau ar gyfer rôl y cadeirydd parhaol ym mis Tachwedd ac mae gwrandawiad cyn penodi â'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi'i drefnu ar gyfer 24 Ionawr 2024.

Bydd y penodiadau hyn yn parhau i gryfhau'r rheolaethau atebolrwydd, llywodraethiant a gweithredol ar draws y bwrdd.

Staff Dros Dro

Fel rhan o'r ymyrraeth mesurau arbennig, cwblhawyd adolygiad o staff dros dro. Mae'r bwrdd iechyd wrthi'n mynd drwy'r argymhellion. Mae'r bwrdd iechyd yn dibynnu'n llai ar staff dros dro bellach. O 1 Hydref 2023, roedd 7 aelod o staff dros dro ar gontractau asiantaeth, 4 aelod o staff dros dro ar gontractau banc a 2 aelod o staff dros dro ar secondiad. Mae hyn yn sylweddol llai na'r niferoedd a welwyd ym mis Chwefror 2023, pan oedd 32 o aelodau o staff dros dro ar gontractau asiantaeth, 6 aelod o staff dros dro ar gontractau banc ac 1 aelod o staff dros dro ar secondiad

Cynghorwyr Annibynnol

Fel rhan o'r trefniadau mesurau arbennig, penodwyd tîm bach o gynghorwyr annibynnol i gefnogi'r Bwrdd ar gyfer adnoddau dynol, llywodraethiant, cyllid a chyflawni gweithredol. Mae hyn yn cynnwys cyngor arbenigol a goruchwylio llywodraethiant ac effeithiolrwydd y bwrdd, yn ogystal â mentora a chymorth ar gyfer y Bwrdd.

Mae rhaglen waith y pum Cynghorydd Annibynnol a benodwyd ym mis Chwefror 2023 wedi dod i ben ac mae eu hargymhellion wedi llywio'r blaenoriaethau ar gyfer cylch 2.

Bydd y gefnogaeth barhaus ar gyfer cyfathrebu a rheoli rhanddeiliaid, iechyd meddwl, cynllunio ac ansawdd a diogelwch yn parhau tan fis Mawrth 2024.

Perfformiad

Cafwyd gostyngiad yn nifer y cleifion sy'n aros yn hir yn y cyfnod cleifion allanol a thriniaeth. Mae nifer y bobl sy'n aros dros 52 wythnos am apwyntiad cleifion allanol wedi gostwng 18% rhwng mis Chwefror a 2023 a mis Awst 2023 ac mae nifer y bobl sy'n aros dros 104 wythnos rhwng popeth wedi gostwng 21% yn ystod y cyfnod hwnnw.

Mae'r gwasanaeth dermatoleg wedi dod o dan bwysau sylweddol ers yr haf. Mae mwy o swyddi gwag yn y gwasanaeth, sy'n golygu bod angen dibynnu ar staff dros dro a locwm. Bydd hyn yn effeithio ar berfformiad y gwasanaethau dermatoleg a chanser y croen yn ystod y misoedd nesaf. Mae mesur adfer ar unwaith wedi cael ei roi ar waith er mwyn sicrhau bod y sefyllfa hon yn effeithio cyn lleied â phosibl ar gleifion sy'n cael triniaeth frys am ganser y croen. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi £200,000 ychwanegol i'r bwrdd iechyd i sefydlu model tele-dermosgopi a fydd yn helpu i frysbennu cleifion yn gyflymach.

Er bod amseroedd aros adrannau achosion brys wedi gwella ym mis Medi 2023, o'u cymharu â mis Gorffennaf 2023, maent yn parhau i fod yn her sylweddol. Nid yw'r ffocws ar gyflawni'r mesur llinell goch y cytunwyd arno gan brif weithredwyr GIG Cymru, i ddileu achosion o oedi 4 awr wrth drosglwyddo claf o ambiwlans, wedi'i gyflawni eto, ond mae'n arwain at rai gwelliannau. Roedd 528 o achosion o oedi o dros 4 awr wrth drosglwyddo claf o ambiwlans ym mis Medi 2023, sy'n well o lawer na'r 1,042 o achosion a nodwyd ym mis Mawrth 2023.

Gwasanaethau Fasgwlaidd

Mae AGIC wedi nodi nad yw bellach yn ystyried gwasanaethau fasgwlar ym BIPBC yn wasanaeth y mae arno angen gwelliant sylweddol. Yn ystod y misoedd diwethaf, mae'r bwrdd iechyd wedi gwneud nifer o benodiadau allweddol, gan gynnwys i ddwy swydd ymgynghorydd fasgwlar parhaol a rheolwr newydd i'r rhwydwaith fasgwlar.

Mae Rhwydwaith Clinigol Fasgwlar Gweithrediaeth y GIG wedi cynnal asesiad annibynnol yn erbyn y cynllun fasgwlaidd. Bydd Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y bwrdd iechyd yn ystyried yr asesiad hwn mewn sesiwn ddatblygu a gynhelir ym mis Tachwedd cyn cyhoeddi ymateb rheoli. Daeth yr asesiad i'r casgliad bod gwasanaeth fasgwlar BIPBC wedi gwella ers yr adolygiadau blaenorol, a'i fod bellach yn darparu gwasanaeth llawer mwy diogel ym marn yr adolygwyr. Aeth ymlaen i nodi bod y llawfeddygon fasgwlaidd yn cydweithio'n well, a bod prosesau rheoli cleifion bellach yn cael eu llywio gan dimau amlddisgyblaethol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu asesiad o nodiadau achos fasgwlar, a ddechreuodd ym mis Tachwedd. Bydd yn adolygu nifer o lwybrau cleifion a gafodd driniaeth rhwng mis Awst 2022 a mis Awst 2023.

Nodir bod gwelliannau yn parhau yn y gwasanaeth fasgwlaidd, gan adeiladu ar yr adolygiadau sydd wedi cael eu cynnal yn ddiweddar. Mae nifer o ddigwyddiadau

ymgysylltu â theuluoedd wedi cael eu cynnal ers cyhoeddi canfyddiadau'r Panel Ansawdd Gwasanaethau Fasgwlaidd ac mae digwyddiad arall wedi'i drefnu ar gyfer dechrau mis Rhagfyr. Mae'r cynllun gwella fasgwlaidd yn gynhwysfawr ac yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd.

Iechyd Meddwl

Mae'n ymddangos bod gwasanaethau iechyd meddwl yn mynd yn fwy sefydlog ac mae perfformiad ym maes iechyd meddwl oedolion yn gwella. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn parhau i fod yn hynod fregus gyda thîm rheoli cymharol newydd a throsiant staff sylweddol.

Mae perfformiad yn erbyn y gwahanol fesurau iechyd meddwl i oedolion yn parhau i wella, gyda bron i 80% o oedolion yn cael asesiad o fewn 28 diwrnod ym mis Mehefin o gymharu â 73.8% ym mis Chwefror, a chydag ychydig dros 81% o oedolion yn cael ymyrraeth o fewn 28 diwrnod. Er bod perfformiad ar gyfer plant o dan 18 oed yn erbyn rhannau 1a a 1b o'r mesur iechyd meddwl yn is na'r targed, maent yn well o gymharu â mis Ionawr.

Fel rhan o'r ymyrraeth mesurau arbennig, comisiynodd y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant adolygiad o'r holl safleoedd cleifion mewnol iechyd meddwl oedolion. Cafodd yr adolygiad hwn ei ystyried mewn sesiwn ddatblygu gan Bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y bwrdd iechyd ym mis Medi, a chytunwyd ar yr ymateb rheoli yn y cyfarfod a gynhaliwyd ganddo ym mis Hydref. Bwriedir cynnal asesiad arall gan Weithrediaeth y GIG ym mis Ionawr 2024 er mwyn asesu i ba raddau y mae'r argymhellion wedi'u gwreiddio.

Mae'r adolygiad o adolygiadau iechyd meddwl sy'n cael eu cynnal gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion yn mynd rhagddo'n gyflym.

Mae hwn yn faes risg uchel o hyd. Bwriedir cynnal nifer o gwestau proffil uchel yn ystod y misoedd nesaf, a bydd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn erlyn achos ym mis Rhagfyr.

Ansawdd a Diogelwch

Ers mis Chwefror, mae'r bwrdd iechyd wedi cael 19 o hysbysiadau Rheoliad 28 Atal Marwolaethau yn y Dyfodol gan y crwner, gan gynnwys pryderon a godwyd sawl gwaith am ymatebion y bwrdd iechyd i bryderon a godwyd, a dysgu ohonynt. Mae dau hysbysiad yn ymwneud â marwolaethau a ddigwyddodd ar ôl i'r bwrdd gael ei uwchgyfeirio i fesurau arbennig. Mae'r ddau grwner wedi mynegi pryderon am y bwrdd iechyd. Cynhaliodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gyfarfod â nhw dros yr haf i drafod eu pryderon.

Mae nifer y materion a godwyd gan Grwner EF a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn parhau i fod yn uchel ac mae hyn yn peri pryder mawr. Mae rhaglen o brosesau adrodd a dysgu newydd bellach wedi'i chytuno ac mae gweithdrefn weithredu safonol newydd bellach ar waith. Bydd y cyfarwyddwr meddygol yn goruchwylio'r rhaglen hon yn uniongyrchol, a bydd proses uwchgyfeirio glir ar waith.

Pan roddwyd y bwrdd iechyd mewn mesurau arbennig, roedd yr aelodau annibynnol o'r bwrdd a oedd yn gadael yn glir iawn fod problemau difrifol i'w gweld o ran ansawdd a diogelwch cleifion yn rhannau o'r sefydliad. Mae Crwneriaid EF wedi cadarnhau'r pryderon hyn, ac mae'r ddau ohonynt wedi bod yn rhwystredig gan yr anfodlonrwydd i ddysgu a welir yn y sefydliad, ac ansawdd gwael y gwaith paratoi ar gyfer cwestau.

Mewn ymateb i'r pryderon difrifol hyn, comisiynodd swyddogion asesiad annibynnol o faterion diogelwch cleifion. Bu'r Bwrdd yn trafod argymhellion yr asesiad mewn sesiwn gaeedig ym mis Medi, a rhannodd ei ymateb rheoli yng nghyfarfod ei Bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad a gynhaliwyd ym mis Hydref.

Cynhaliwyd cyfarfod bord gron ansawdd rhwng y bwrdd iechyd, Llywodraeth Cymru, cynghorwyr annibynnol a Gweithrediaeth y GIG ym mis Tachwedd i gytuno ar feysydd ffocws allweddol.

Cyfrifon Blynyddol 2022-23

Cyflwynodd y bwrdd iechyd ei gyfrifon blynyddol ar gyfer 2022/23 mewn cyfarfod eithriadol o'r bwrdd a gynhaliwyd ar 24 Awst 2023. Cafodd y cyfrifon eu hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar 25 Awst 2023. Roedd Cyfrifon Blynyddol 2022/23 yn nodi gwarged ar gyfer y flwyddyn ariannol. Parhaodd hyn yn gyson o'r drafft i'r gymeradwyaeth derfynol gan y bwrdd iechyd, gan dangos bod y ddyletswydd ariannol gyntaf wedi’i chyflawni yn yr ystyr nad oedd gwariant yn fwy na'r cyllid cyfanredol dros gyfnod o dair blynedd.

Cynigiodd yr Archwilydd farn amodol ynghylch a oedd y datganiadau ariannol yn rhoi golwg wir a theg, ar sail ansicrwydd sylweddol ynghylch y balansau agoriadol ac ansicrwydd ynghylch p'un a oedd gwariant ar gyfer 2022-23 wedi'i danddatgan yn sylweddol. Roedd y ddau fater hyn yn ymwneud â'r farn amodol a gynigiwyd ganddo ar ddatganiadau ariannol 2021-22, ar sail y dystiolaeth annigonol a phriodol ynghylch croniadau, symiau taladwy a gwariant penodol a nodwyd yn y datganiadau ariannol.

Rhoddodd amodau pellach ar y farn reoleidd-dra oherwydd achos o dorri rheolau ariannol sefydlog ar dalu cyflog i Gyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro a methiant y bwrdd iechyd i gyflawni ei ail ddyletswydd ariannol.

Fodd bynnag, mae Archwilio Cymru wedi cadarnhau bod y sefyllfa wrth gau’r fantolen ar gyfer 2022-23 yn rhoi barn wir a theg ym mhob agwedd berthnasol, ac felly na ddylai'r ansicrwydd arwyddocaol a nodwyd ganddynt a effeithiodd ar 2001-22 ac ar farn archwilio 2022-23 effeithio ar flwyddyn ariannol 2023/24.

Materion Cyfrifyddol

Mae’r bwrdd iechyd wedi datblygu cynllun gweithredu amgylchedd rheolaeth ariannol ac mae wrthi'n rhoi'r cynllun hwn ar waith. Yn sgil cyngor cyfreithiol, cyfarfu cadeirydd y bwrdd iechyd a'r prif weithredwr dros dro â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus mewn sesiwn gaeedig ar 5 Gorffennaf.

Mae'r bwrdd iechyd yn gweithio drwy'r prosesau disgyblu, ac mae rhai gwrandawiadau disgyblu wedi cael eu cynnal. Cododd nifer o achosion disgyblu yn dilyn ymchwiliad Ernst and Young. Mae 40% o'r rhain wedi dod i ben ac mae'r lleill yn mynd drwy'r broses ddisgyblu. Y cyngor cyfreithiol yw bod rhaid rhoi cyfle i'r achosion hyn gael eu cwblhau yn unol â chyfiawnder naturiol, ac y byddai cyhoeddi adroddiad Ernst and Young yn golygu na fyddai hynny'n digwydd. Mae'r bwrdd iechyd wedi cytuno y bydd yn cyhoeddi, drwy'r Bwrdd, ei ymateb i faterion cyfrifyddol gan gynnwys adroddiad Ernst and Young pan fydd yr holl faterion disgyblu a chwynion sydd heb eu datrys eto wedi eu datrys.

Mae'r bwrdd iechyd wedi rhoi'r holl wybodaeth sy'n ymwneud ag adroddiad Ernst and Young i Heddlu Gogledd Cymru. Nid yw Heddlu Gogledd Cymru wedi dod i benderfyniad eto ynglŷn ag unrhyw gamau pellach.

<u>Sut y caiff cynnydd ei fonitro</u>

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant wedi ymweld â'r bwrdd iechyd sawl gwaith yn ystod yr wyth mis diwethaf, gan gynnwys ymweld â phob un o'r tri safle acíwt a nifer o leoliadau iechyd meddwl a chymunedol eraill. Mae hyn wedi rhoi cyfle iddynt glywed profiadau staff a chleifion, a gweld y gwelliannau sy'n cael eu gwneud.

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cadeirio Fforwm Gwella Mesurau Arbennig â'r bwrdd unedol bob dau fis, ac mae'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant yn mynd i'r fforwm hefyd. Mae hyn yn rhoi cyfle i Weinidogion Cymru gael sicrwydd bod y bwrdd iechyd yn bwrw ymlaen â'r camau priodol mewn ymateb i'r uwchgyfeirio i fesurau arbennig.

Mae'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant yn cadeirio cyfarfod chwarterol â'r bwrdd iechyd ar iechyd meddwl.

Mae'r Gweinidog hefyd yn cyfarfod â'r Cadeirydd dros dro bob mis. Defnyddir y cyfarfodydd hyn i asesu cynnydd yn erbyn ei amcanion.

Mae Prif Weithredwr GIG Cymru yn cadeirio Bwrdd Sicrwydd Mesurau Arbennig chwarterol sy'n adolygu cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau ym mhob cylch 90 diwrnod.

Mae'r bwrdd iechyd a Llywodraeth Cymru yn cynnal nifer o gyfarfodydd rheolaidd er mwyn olrhain cynnydd, gan gynnwys cyfarfodydd misol â'r gwasanaethau canser a gofal llygaid, Bwrdd Ansawdd a Chyflenwi Integredig a gynhelir yn fisol, cyfarfod y Tîm Gweithredol ar y Cyd a gynhelir ddwywaith y flwyddyn, a chyfarfodydd cyswllt rheolaidd i drafod cyllid, ansawdd, gofal a gynlluniwyd a gofal a heb ei drefnu.

<u>Penderfyniad i isgyfeirio</u>

Er bod rhai gwelliannau'n cael eu gwneud, mae'r Bwrdd yn parhau i asesu meysydd sy'n peri pryder. Mae angen creu prosesau a gweithdrefnau newydd a'u gwreiddio, a bydd y newid diwylliannol sydd ei angen yn cymryd amser. Pan fyddwn wedi cael sicrwydd bod yr holl faterion sy'n peri pryder wedi'u hadolygu a phan fyddwn yn deall

maint yr hyn y mae angen ei wneud mewn gwirionedd, yna byddwn yn cytuno ar feini prawf isgyfeirio clir ac yn eu cyhoeddi.

**Tracey Burke**
Cyfarwyddwr Cyffredinol / Director General

Y Grŵp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Climate Change and Rural Affairs Group

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

14 Tachwedd 2023

Annwyl Gadeirydd

**MAES AWYR CAERDYDD**

Yn dilyn fy llythyrau atoch ar 18 Medi a 26 Hydref am Faes Awyr Caerdydd, rwy'n ysgrifennu i roi'r diweddariad chwe misol hwn i'r Pwyllgor.

**Adroddiadau Chwarterol**

Yn fy llythyr atoch ar 21 Medi 2022, nodais y metrigau a ddefnyddir yn yr adroddiadau chwarterol i fesur perfformiad y Maes Awyr yn unol â'r Cynllun Achub ac Ailstrwythuro. Mae'r adroddiad cynnydd isod yn cyfeirio at y metrigau hynny.

**Adroddiad cynnydd** ar gyfer Chwarter un (Ch1), sef y cyfnod a ddaeth i ben ar 30 Mehefin 2023[1]:

- Cyfanswm nifer y teithwyr oedd 236,199 ar gyfer y cyfnod o dri mis hyd at fis Mehefin. Gwelwyd 3,789 yn llai o deithwyr yn teithio yn ystod Ch1 na'r hyn a ragwelwyd a'r rheswm am hynny oedd colli Wizz Air. Er hynny, roedd yr incwm yn uwch na'r gyllideb, hynny oherwydd mwy o wariant gan deithwyr.

- Mae asiant benthyg Llywodraeth Cymru, Banc Datblygu Cymru (BDC) wedi rhoi naw adroddiad chwarterol iddi hyd yma ar y Cynllun Achub ac Ailstrwythuro.

[1]O dan delerau ein cytundebau gyda'r Maes Awyr, rhaid i'r Maes Awyr ddarparu adroddiad chwarterol i BDC, fel yr asiant benthyg, o fewn 45 diwrnod ar ôl diwedd pob chwarter ariannol. Ar ôl derbyn y wybodaeth gan y Maes Awyr, bydd BDC yn cyflwyno ei adroddiad chwarterol i Lywodraeth Cymru o fewn 20 diwrnod busnes. Yr amserlenni hyn yw'r rheswm am yr oedi wrth gyflwyno ffigurau pob chwarter.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE



Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Tel/Ffôn: 0300 025 6162
E-Bost/E-Mail: andrew.slade@gov.wales

- Yn unol â'r amserlen ar gyfer tynnu arian i lawr a nodir yng Nghytundeb grant y Cynllun Achub ac Ailstrwythuro, mae Maes Awyr Caerdydd wedi tynnu i lawr £38.2m hyd yma o'r £42.6m sydd ar gael. Bydd gofyn tynnu'r gweddill i lawr erbyn diwedd Rhagfyr 2024.

- Y benthyciad sy'n weddill heb ei dalu ar 30 Medi 2023 yw £31.4m. Mae hyn yn cynnwys y cyfalaf ar y llog, sy'n cael ei ychwanegu at y balans ar ddiwedd pob mis. Nid oes benthyciadau yn awr nac yn yr arfaeth y gall Maes Awyr Caerdydd dynnu arian i lawr ohonynt.

- Mae'r balans arian parod wedi para'n uchel oherwydd incwm uwch a rheolaeth dynn iawn ar gostau a gohirio gwariant cyfalaf. Yr un pryd, mae'r Maes Awyr wedi parhau i gydymffurfio â'r gofynion rheoleiddio ar gyfer gweithredu.

- Roedd yr incwm ar gyfer y tri mis a ddaeth i ben ar 30 Mehefin 2023 5% yn uwch na'r gyllideb. Sail y gyllideb iachach hon oedd incwm uwch o draffig a pharcio cerbydau masnachol a cheir.

- Nid yw'r Maes Awyr wedi dechrau gwneud elw blynyddol eto, yn ôl mesurau'r EBITDA (Enillion Cyn Llog, Trethi, Dibrisiant ac Amorteiddio). Ond llwyddwyd i gadw rheolaeth dda ar gostau sy'n golygu bod colled EBITDA ar gyfer Ch1 2023 yn is na'r disgwyl. Ein targed yn y dyfodol o hyd yw sicrhau EBITDA cadarnhaol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn a chymeradwyo naw cais am wariant cyfalaf rhwng £50,000 ac £1m hyd yma gan y Maes Awyr, cyfanswm o £2.2m, ynghyd â dau gais dros na £1m yr un, cyfanswm o £12.6m, Daw'r arian o gyllideb a rag-gymeradwywyd o ryw £29m, sydd wedi'i chlustnodi tan fis Mawrth 2026. Bernir bod yr holl fuddsoddiadau yn gostau sy'n hanfodol i ddiogelwch / sicrwydd gweithredol y Maes Awyr.

**Targedau perfformiad**

Yn fy llythyr atoch dyddiedig 21 Medi 2022, disgrifiais berfformiad y Maes Awyr ar sail y Cynllun Achub ac Ailstrwythuro. Er hwylustod, rwyf wedi amlinellu yn y tabl isod dargedau'r Maes Awyr a gynhwyswyd yn eu cytundeb grant, a'r wybodaeth ddiweddaraf am bob targed.

| **Disgrifiad o'r targed** | **Dyddiad y dylid cyrraedd y targed** | **Y dystiolaeth sydd ei hangen** | **Diweddariadau** |
|---|---|---|---|
| 1.3m o deithwyr bob blwyddyn | 31 Mawrth 2026 | Adroddiad yn nodi nifer y teithwyr, gan ddefnyddio data'r Awdurdod | Mae Maes Awyr Caerdydd wedi adennill 58% o'r teithwyr oedd ganddo |

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Hedfan Sifil (CAA) | yn 2019, gan gofnodi bod 910,000 o deithwyr wedi bod trwy ei derfynfa erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf (31 Mawrth 2023). Mae'r maes awyr ar drywydd cyrraedd  y targed o 1.3m o deithwyr erbyn 31 Mawrth 2026. |
| Sicrhau elw, a fesurir gan yr EBITDA ( Enillion cyn Llog, Trethi, Dibrisiant ac Amorteiddio) | 31 Mawrth 2029 | Set o gyfrifon wedi'u harchwilio | Nid yw'r maes awyr yn gwneud elw eto, yn ôl mesur EBITDA. Mae'r LBITDA (Colled Cyn Llog, Trethi, Dibrisiant ac Amorteiddio) yn gyson â'r gyllideb, mae sicrhau EBITDA cadarnhaol yn darged ar gyfer y dyfodol. |
| Arbed o leiaf £500,000 mewn costau cyflog | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 | Adroddiad blynyddol | Llwyddodd y Maes Awyr i gyrraedd y targed o arbed o leiaf £500,000 o gostau cyflog yn y flwyddyn a |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022. |
| Cynnal costau gweithredu yn unol â rhagolwg 11/02/21. | 31 Mawrth 2029 | Rhaid rhoi gwybod i Swyddog Llywodraeth Cymru yn yr adroddiad chwarterol am unrhyw gynnydd a ragwelir o fwy na 5%. | Mae'r maes awyr yn parhau'n fras i gynnal costau gweithredu yn unol â'r rhagolwg 11/02/21. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod effaith ddi-dor y pandemig ar y diwydiant hedfan; Mae pwysau chwyddiant, marchnad lafur dynn a gofynion rheoleiddio'n parhau i fod yn heriau sylweddol i'r diwydiant hedfan wrth iddo geisio ymadfer. Felly mae hi ym Maes Awyr Caerdydd. |
| Ymrwymiad i fod yn garbon niwtral:<br>a) Ymrwymo i fferm solar weithredol ym maes awyr Caerdydd (neu ffordd arall o ddefnyddio ynni'n effeithlon)<br>b) Ymrwymiad i ddatblygu tanwydd hedfan cynaliadwy a'i gynnig i | 31 Mawrth 2023 | I'w ddiweddaru fel rhan o'r adroddiad chwarterol. | Mae'r sefyllfa fel a ddisgrifiais wrth y Pwyllgor yn fy llythyr dyddiedig 5 Mai 2022. |

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

| | | | |
|---|---|---|---|
| gwmnïau hedfan ym Maes Awyr Caerdydd cyn gynted ag y bo modd.<br>c) Ymrwymiad y bydd pob cerbyd a brynir yn y dyfodol yn un trydan neu hybrid (lle eu bod ar gael)<br>d) Cynnig strwythur prisio (a fydd ar gael i'r cyhoedd ei weld) lle cynigir ffioedd a thaliadau disgownt i'r cwmnïau hedfan hynny sy'n rhedeg yr awyrennau rhataf ar danwydd.<br>e) Canolbwyntio ar wella llwybrau hedfan amgylcheddol. | | | |

Ysgrifennais atoch hefyd ar 9 Mai 2023, dan orchudd cyfrinachol masnachol, i'ch diweddaru am y targed perfformiad arall ac nad oedd y sefyllfa honno wedi newid.

Nid yw'r naill barti na'r llall wedi cytuno ar newidiadau na mesurau na thargedau newydd.

**Sganwyr Diogelwch Modern (NGS)**

Fel y dywedais yn fy llythyr ar 18 Medi, roeddem wrthi ar y pryd yn ystyried pwysau'r gost ychwanegol o brynu sganwyr bagiau 3-D modern - sy'n ofynnol i Faes Awyr Caerdydd eu cael erbyn 2024; gofyniad rheoliadol o dan orchymyn Llywodraeth y DU. Rydym wedi gwneud y gwaith hwnnw ac o ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru, fel yr unig fuddsoddwr yn y maes awyr, wedi penderfynu y dylai ar sail masnachol, fuddsoddi £6.6m o ecwiti yn y maes awyr, fel mesur untro i ysgwyddo heriau'r gost a bodloni'r gofyniad rheoliadol gorfodol hwn. Bydd hyn yn sicrhau bod diogelwch teithwyr a phrofiad teithwyr yng Nghaerdydd yn cyfateb i'r hyn a gynigir mewn meysydd awyr rheoledig eraill yn y DU. Am ragor o fanylion, gweler y ddolen i ddatganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru yma:

Datganiad Ysgrifenedig: Sganwyr Diogelwch y Genhedlaeth Nesaf (NGS) ym Maes Awyr Caerdydd (26 Hydref 2023) | LLYW. CYMRU

Written Statement: Cardiff Airport Next Generation Security (NGS) Scanners (26 October 2023) | GOV.WALES

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**WGC Holdco**

Fel y mae'r Pwyllgor yn ei wybod, yn dilyn adolygiad llywodraethu mewnol o WGC Holdco Limited, cytunodd Gweinidogion Cymru fod dau Gyfarwyddwr Anweithredol newydd yn cael eu penodi ar Fwrdd Cyfarwyddwyr Holdco, yn lle'r ddau Uwch Was Sifil. Y bwriad oedd cadw'r Cyfarwyddwr Anweithredol presennol a phenodi rhywun yn ei le ddiwedd ei dymor presennol sy'n dod i ben ar 14 Tachwedd 2023. Bydd swydd yn cael ei chadw hefyd ar y Bwrdd ar gyfer un Uwch Was Sifil.

Yn dilyn proses recriwtio fewnol o dan ofal gweision sifil ac a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru, mae'n bleser cael cyhoeddi bod Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Adfer Covid a Llywodraeth Leol wedi'i benodi'n Gyfarwyddwr a Chadeirydd newydd Bwrdd HoldCo Limited WGC.

Rydym yn tynnu at ddiwedd proses recriwtio'r tri Chyfarwyddwr Anweithredol ar Fwrdd Holdco. Byddaf yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am ganlyniad y broses honno yn fy llythyr nesaf.

Rwy'n ffyddiog bod y llythyr hwn yn bodloni'r ymrwymiad a roddais i chi i'ch diweddaru bob chwe mis, ond os hoffech ragor o wybodaeth neu esboniad manylach, rhowch wybod.

Yn gywir

**Tracey Burke**
Cyfarwyddwr Cyffredinol
Grwp Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan ● website: www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Eitem 3



Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Grwp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad**
**Economy, Treasury and Constitution Group**

**Cyfarwyddwr Cyffredinol – Director General**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mark Isherwood AS/MS
Chair
Public Accounts and Public Administration Committee
Welsh Parliament
Cardiff Bay
Cardiff CF10 3NQ

23 November 2023

Dear Chair

I write to you ahead of my scheduled evidence session with the Public Accounts and Public Administration Committee on 29 November 2023 on the subject of Amgueddfa Cymru.

I am aware that following the publication of the Financial Report of the Board of Trustees of the National Museum of Wales 2021/22, which included the Auditor General for Wales' qualified regulatory opinion and the Auditor General's additional report on Governance Arrangements Relating to an Employment Dispute at Amgueddfa Cymru – National Museum Wales, Committee members will wish to discuss recent events at Amgueddfa Cymru.

The matters that the Auditor General addresses in his qualified regulatory opinion and subsequent report relate to sensitive and complicated issues spanning a considerable period of time. The governance of Amgueddfa Cymru is itself complex as an institution established via a Royal Charter that is both a registered charity and at arm's length from Welsh Government. With this context in mind, we sought detailed legal advice regarding Welsh Government's role in helping to resolve the issues at Amgueddfa Cymru, and we also liaised with the Charity Commission. Our priority was always to support colleagues at Amgueddfa Cymru and enable them to move forward at a time that the museum itself has acknowledged as an extremely challenging period. Amgueddfa Cymru is one of our treasured cultural institutions in Wales and it was imperative that we did all we could to enable it to operate as effectively as possible to serve the people of Wales, and also to protect its reputation. We were equally committed to protecting the rights and wellbeing of all affected parties.

Lessons have been learned from these events by both Amgueddfa Cymru and Welsh Government. An independent Tailored Review of Amgueddfa Cymru was specifically commissioned by Welsh Government, and, after necessary preparatory phases, formally began its work in August 2022. We had initially intended for the Tailored Review to conclude by Christmas 2022. However, in finalising the terms of reference, it became apparent that the

Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd/Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn/Tel: 0300 025 6162
E-Bost/E-Mail: andrew.slade@gov.wales

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

panel would not be able to cover the intended remit appropriately, in depth, and report within this timescale. Given the challenges facing Amgueddfa Cymru at the time, we agreed that an interim report focusing on corporate governance would be delivered by Christmas 2022, and that the Review Panel would present its initial findings by 1 March 2023. This allowed us to utilise the review to achieve the best outcome but also to prioritise the focus on governance.

The Review Panel delivered its initial draft report on 1 March 2023 and this was considered, and commented on, by the Partnership Team and Amgueddfa Cymru. The Review Panel amended its report, where it felt that was appropriate, and presented a revised report for consideration by a Challenge Panel (made up of senior Welsh Government officials and an independent member) which met on 11 May 2023. The Review Panel considered the comments and views of the Challenge Panel and submitted its final report on 1 June 2023.

The Review Panel was chaired by David Allen, former chair of the Higher Education Funding Council for Wales, and members had experience of governance, efficiency and of running national museums. The final, detailed report was published on 13 July 2023, with 27 of its 77 recommendations focusing on governance. The Review Panel's thorough report provides recommendations for Amgueddfa Cymru's future and puts forward ways of dealing with situations similar to recent circumstances through policies and procedures. Work is already underway in responding to the wide-ranging recommendations made in the report and we are supporting Amgueddfa Cymru to move forward, working closely with its new Chair and Chief Executive Officer.

The Auditor General makes two recommendations in his report that relate specifically to Welsh Government:

*R2. Drawing on the learning from the employment dispute at Amgueddfa Cymru, the Welsh Government should work with its arm's length bodies to ensure grievance policies address the scenario of concerns that are raised by their most senior officers and/or that are directed at Board members and to ensure broad consistency of approach.*

*R3. The Welsh Government should clarify the procedures to be followed in circumstances such as the employment dispute at Amgueddfa Cymru where it is itself a party to novel, contentious, or repercussive proposals arising from its arm's length bodies.*

We fully agree with the Auditor General's recommendations and had already identified these actions as areas of priority for Welsh Government. A draft 'Guidance for managing concerns and complaints against senior leaders in the Public Sector in Wales' has been developed and was presented to the Chief Executives of Welsh Government Arm's Length Bodies on 5 October 2023. Once initial comments have been received, the intention is for the draft to go to formal consultation with members of Welsh Government's Devolved Sector Group.

Welsh Government does not, however, accept the Auditor General's suggestion that the agreement reached did not represent value for public money. We believe the counterfactual must be considered. Welsh Government received expert advice from an employment law specialist on the matter and agreed the settlement, as an interested party, on the basis of the following key considerations: it was the course of action most likely to deliver a reasonable

outcome, allowing all parties to manage costs and resolve the matter as quickly as possible, and avoiding the need for a protracted dispute that was assessed as likely to result in a greater overall cost to the public purse.

As you may be aware, we had the opportunity to comment on the Auditor General's draft PIR, and wrote setting out a number of concerns over the completeness of representation with the draft report. This included the personal and confidential nature of the issues, and the risk the report, as presented, could pose to the carefully negotiated settlement agreement.  Further, Welsh Government felt that Audit Wales colleagues had not been able to provide any examples of where Accounting Officer duties had been compromised, or where governance failures had occurred resulting in loss or damage to Amgueddfa Cymru. We note the draft report was amended slightly in light of Welsh Government's comments, but many of the points raised were not addressed.

Welsh Government's principal concern is that there is a legal agreement in place between the parties involved that is still 'live'. This means that all parties to the agreement are committed to carry out certain obligations between the date the settlement agreement was signed and 30 September 2024. Not all of these obligations have been fulfilled as yet, because of how they fall in timing terms. Any act or omission during this period that could lead to an obligation not being fulfilled or impacts any of the other terms of the agreement could in turn lead to a breach of the settlement agreement and further costly legal proceedings. This necessarily limits what can publicly be shared at the present time. We are aware that one of the parties involved has already sought legal advice regarding the nature of the information that has been made public in recent weeks and in respect of the risk that this poses to the settlement agreement.

Whilst I will endeavour to answer committee members' questions on this matter next week, I will have to be steered by legal advice – in particular, in respect of not discussing matters that would breach the agreement that is in place. This would risk further legal challenges and injury to the individuals involved, to Amgueddfa Cymru and to Welsh Government, as well as opening up the prospect of significant further costs to the public purse.  You will understand that this is something I wish to avoid.

I am happy to discuss this with you directly ahead of the evidence session, if that would be helpful.

With best wishes.

Yours sincerely

**Andrew Slade**
Director General
Economy, Treasury and Constitution

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon